

# Arwyddion Tywydd

gan Gwaith Maes, gyda diolch i Twm Elias





Cyn dyddiau'r radio na'r teledu, a chyn bod papurau newydd ar gael i bawb, nid oedd modd i bobl dderbyn unrhyw fath o ragolygon tywydd. Felly, ers talwm, roedd pobl yn sylwi'n ofalus ar fyd natur o'u cwmpas yn lle gwrandio ar ddarogan y gwyddonwyr.

Gan fod canran mor uchel o'r boblogaeth yn dibynnu ar y tir neu ar y môr am eu bywoliaeth, roedd y tywydd yn holl bwysig i bawb.  
*Storm eira?* Rhaid hel defaid i lawr o'r mynydd.  
*Glaw trwm a llifogydd?* Gwell symud y gwartheg i dir uwch.  
*Gwyntoedd mawrion?* Brysio i gyrraedd harbwr diogel.



Roeddent yn gweld fod rhai pethau'n digwydd pan oedd y tywydd ar fin newid. Dyma **ragolygon y tywydd** yr oes a fu.

Erbyn heddiw, mae'r dywediadau am y tywydd yn rhan o lôn gwerin Cymru ac mae llawer o enghreifftiau ohonynt i'w cael o bob cwr o'r wlad. Casglwyd y rhai a ganlyn gan Twm Elias, sydd â diddordeb mawr ym myd natur a llôn gwerin.

	<p><i>"Os daw gwynt o flaen y glaw, Cwyd dy galon, hindda ddaw;  Os daw glaw o flaen y gwynt Tywydd mawr sydd ar ei hynt"</i></p>	
---	---	---

**"Niwl o'r mynydd, tes ar y glennydd;  
Niwl o'r môr, glaw ar ei ôl."**

**Machlud coch – diwrnod braf i ddod**

	<p><i>"Os daw i fwrw gyda'r trai, Gad dy gôt, am fwrw ma'i."</i></p> <p><i>"Pan flodeua'r ddraenen wen Y mae'r tymor rhew ar ben."</i></p>	
---	--	---

**Gwallt y Forwyn  
(y cymylau uchel a elwir yn cirrus) - tywydd ansefydlog**

*Bydd cathod yn rhedeg yn wyllt pan fydd gwynt a glaw ar y ffordd.*



**"Lleuad newydd fel cwch ar ei chefn – Tywydd sych am fis fydd y drefn."**

*Mae gwartheg yn gorwedd yn y cae yn arwydd fod glaw i ddod.*



Glywsoch chi rywun yn ardal eich cartref neu o fewn y teulu yn sôn am arwyddion tywydd eraill? Weithiau, cewch fod rhannau gwahanol o'r wlad â choelion hollol groes i'w gilydd e.e mai arwydd o **law** yw lleuad ar ei chefn, tra mai dangos mai mis go **sych** mae lleuad newydd "yn sefyll ar ei phigyn."

Gan nad oedd bywyd yng ngweddill Ynysoedd Prydain yn amrywio fawr, cewch drysorfa o ddywediadau cyffelyb mewn Saesneg a Gaeleg e.e.

*"Red sky at night, shepherds' delight;  
Red sky in the morning, shepherds' warning."*

Nodwch rhain hefyd, yn enwedig os ewch chi ar wyliau i'r Alban neu i Iwerddon neu os ydych chi'n byw mewn ardal heb fawr o Gymraeg.

## **GWAITH YMCHWIL YN Y MAES**

**Ofergoelion dwl!** – dyna farn llawer o bobl erbyn hyn am yr hen arwyddion tywydd. Onid oes gennym ni wyddonwyr a lloerennau a chyfrifiaduron?

### ***Pa mor gywir yw'r hen ddull o ddarogan y tywydd?***

Mae angen pwyso a mesur y dystiolaeth yn wyddonol felly ewch ati i asesu'r hen goelion. Cofiwch, bydd rhaid arsylwi'n ofalus, cadw cofnod o'r canlyniadau a nodi sawl gwaith roedd yr arwydd yn gywir neu'n anghywir. Byddai cofnodi dros gyfnod go hir yn gwneud eich hymchwil yn fwy dilys fyth – os felly bydd arnoch angen nifer o gopïau o'r daflen. Ychwanegwch arwyddion a dywediadau eraill a nodwch o ba ardal y deuant.

--	--	--	--	--	--

Fel unigolion neu fel dosbarth, anfonwch eich canlyniadau at *Gwaith Maes* trwy ddefnyddio'r botwm cysylltu ar y safwe, neu trwy'r post i'r Golygydd. Bydd yn bleser cael eu hanfon at Twm Elias, sydd yn dal i'w casglu, ac efallai cyflwyno adroddiad bach yn nodi eich casgliadau.